**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Flaenoriaethau'r Chweched Senedd**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee consultation on Sixth Senedd Priorities**

**CYPE SP 34**

**Ymateb gan: Hywel Iorwerth, Comisiynydd y Gymraeg**

**Response from: Hywel Iorwerth, Welsh Language Commissioner**

---

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

**Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education**

Un sylw cyffredinol sy’n berthnasol i’r holl awgrymiadau isod yw’r angen i graffu’n benodol ar addysg yng nghyd-destun strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth. Mae’r pwyllgor yn aml yn craffu ar agweddau gwahanol o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ac yn yr un modd mae Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, Y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn aml yn ystyried materion yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Er hyn, nid addysg a’r Gymraeg yw prif ffocws y gwaith craffu fel rheol, ac nid yn aml ceir cyfleoedd i drafod mewn manylder a dyfnder gyfraniad y sector addysg i strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth.

O ystyried pwysigrwydd addysg i gyflawniad strategaeth Cymraeg 2050, credwn fod gwerth amlwg mewn neilltuo amser penodol i bwyso a mesur y graddau mae’r Llywodraeth ar y trywydd cywir o ran cyfraniad y sector addysg i’r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae’n bosib y gellir cynnal ymchwiliad cyffredinol i strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth, neu fel arall ganolbwyntio ar faterion mwy penodol ar wahân (er enghraifft, rhai o’r blaenoriaethau rydym yn eu hamlinellu isod). Mae’n bosib y byddai gwaith o’r fath yn gofyn am gydweithio rhwng gwahanol bwyllgorau’r Senedd.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhaglen waith 2021-26 ar gyfer strategaeth Cymraeg 2050. Mae’r rhaglen waith yn cynnwys nifer helaeth o ymrwymiadau yn ymwneud ag addysg, ac mae’n naturiol felly y gallai rhai o’r ymrwymiadau pwysig hyn fod yn flaenoriaethau ar gyfer gwaith y pwyllgor. Dylid nodi hefyd bod ein barn ynghylch blaenoriaethau’r pwyllgor i raddau helaeth yn adlewyrchu

argymhellion y Comisiynydd ar gyfer maniffestos etholiad 2021. Rydym eisoes wedi llythyru â'r Pwyllgor ynghylch ein hargymhellion maniffestos a blaenoriaethau'r Senedd nesaf o safbwynt y Gymraeg ym mis Gorffennaf.

O ran addysg oedran ysgol, credwn fod 3 phrif flaenoriaeth:

- Cyflwyno Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg: Nid yw'n glir eto beth fydd hyd a lled y Bil hwn, a chredwn fod cyfle i'r pwyllgor edrych ar sefyllfa addysg Gymraeg mewn paratoad ar gyfer yr hyn fyddai mewn Bil o'r fath. Mae'n bosib byddai Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ymwneud ag ystod eang o faterion, ac felly mae'n gyfle euraid i graffu a chasglu tystiolaeth ar sefyllfa'r Gymraeg ym myd addysg. Byddai ymchwiliad o'r fath yn cyfrannu'n sylweddol at gynnwys unrhyw fil arfaethedig, a hefyd yn berthnasol i nifer helaeth o ymrwymiadau rhaglen waith Cymraeg 2050.

- Hyfforddi athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg: Ym mis Awst 2020 cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg nodyn briffio ar y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol. Roedd y nodyn briffio yn dadansoddi sefyllfa hyfforddi athrawon yng nghyd-destun targedau addysg Cymraeg 2050, ac yn cynnig cyfres o argymhellion penodol. Mae'r Llywodraeth erbyn hyn wedi ymrwymo i gyflwyno strategaeth 10 mlynedd ar gyfer cynyddu nifer o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg yn un o ffyn mesur Strategaeth 2050, a gwyddom fod y Llywodraeth eisoes wedi methu'r targedau cyntaf ar gyfer 2021. O ystyried pwysigrwydd athrawon i weddill strategaeth addysg Gymraeg y Llywodraeth, credwn fod hwn yn faes hollbwysig i'r pwyllgor ei ystyried. Mae potensial hefyd i ymestyn y thema yma i'r sector Addysg bellach a'r sector gofal plant yn ogystal.

- Y cwricwlwm newydd ac ysgolion cyfrwng Saesneg: mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn gosod targedau hynod uchelgeisiol o ran cyfraniad y sector addysg cyfrwng Saesneg i'r nod o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg. Fel y gwyddoch, yn ystod cyfnod craffu ar Fil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), fe wnaeth y Comisiynydd dynnu sylw penodol at ddiffygion y cwricwlwm newydd o safbwynt addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn ystod cyfnod y Senedd nesaf, credwn fod angen casglu tystiolaeth ynghylch y graddau y mae sefyllfa'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwella yn unol â gweledigaeth y Llywodraeth.

---

One theme that is relevant to all the suggestions below is the need to scrutinize education specifically in the context of the Government's 2050 Welsh language strategy. The committee often scrutinizes different aspects of Welsh-medium and bilingual education, and similarly the Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee often considers issues relating to Welsh-medium education. However, education and the Welsh language are not usually the main focus of scrutiny, and there are limited opportunities to discuss in

detail and depth the contribution of the education sector to the Government's Welsh language strategy.

Given the importance of education to the achievement of the Cymraeg 2050 strategy, we believe there is clear value in devoting specific time to evaluate whetherthe Government is on track in terms of the education sector's contribution to the target of reaching one million Welsh speakers by 2050. It is possible that a general inquiry into the Government's Welsh-medium education strategy could be undertaken, or alternatively focus could be given to more specific issues in isolation (for example, some of the priorities we outline below). Such work may require collaboration between the various committees of the Senedd.

The Welsh Government has recently published their 2021-26 work program for the Cymraeg 2050 strategy. The work program contains numerous commitments relatingto education, and it is therefore natural that some of these important commitments may be priorities for the committee's work. It should also be noted that our views onthe committee's priorities largely reflect the Commissioner's recommendations for the 2021 election manifestos. We have already written to the Committee about our manifesto recommendations and the priorities of the next Senedd in relation to the Welsh language in July.

In terms of school age education, we believe that there are 3 main priorities:

- **Introduce a Welsh Medium Education Bill:** It is not yet clear what the scope of this Bill will be, and we believe that there is an opportunity for the committee to look at the position of Welsh medium education in preparation for what could be included in such a Bill. It is possible that the Bill would cover a wide range of issues, and it is therefore a goodopportunity to scrutinize and gather evidence onthe position of the Welsh language in education. Such an investigation would contribute significantly to the content of any proposed bill, and would also be relevant to a large number of the Cymraeg 2050 work program commitments.
- **Training teachers to teach through the medium of Welsh:** In August 2020 the Welsh Language Commissioner published a briefing note on the Welsh language and the statutory education workforce. The briefing note analyzed the teacher training situation in the context of the 2050 Welsh education targets, and offered a series of specific recommendations. The Government is now committed to introducing a 10 year strategy for increasing the number of teachers able to teach through the medium of Welsh. Increasing the number of Welsh-medium teachersis one of the measures of the Cymraeg 2050 Strategy, and we know that the Government has already missed the first targets for 2021. Given the importance of teachers to the rest of the Government's Welsh-medium education strategy, we

believe this is a crucial area for for the committee to consider. There is also potential to extend this theme to the further education and childcare sectors as well.

- **The new curriculum and English-medium schools:** the Welsh Government's Cymraeg 2050 strategy sets extremely ambitious targets for the contribution ofthe English-medium education sector to the aim of increasing the number of Welsh speakers. As you know, during the scrutiny of the Curriculum and Assessment (Wales) Bill, the Commissioner drew particular attention to the shortcomings of the new curriculum in terms of teaching Welsh in English- medium schools. During the next Parliamentary period, we believe there is a needto gather evidence on the extent to which the teaching of Welsh in English- medium schools is improving in line with the Government's vision.

**Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education**

- **Bill Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru):** Gwyddom fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ac mae'n debygol bydd gan y pwyllgor rôl allweddol yn craffu ar y Bil maes o law. Mae hyn yn cynnig cyfle i'r pwyllgor bwyso a mesur sefyllfa'r Gymraeg ym maes addysg bellach ac uwch.

- **Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg:** Ym mis Ionawr 2019 cyflwynodd y Grŵp Cynllunio Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg y cynllun gweithredu uchod. Er bod y Llywodraeth wedi darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'r cynllun gweithredu yn un pellgyrhaeddol a sylweddol. Nid yw'r cyllid ychwanegol hwn gyfystyr â gweithredu'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae gan y pwyllgor rôl i sicrhau bod y Llywodraeth a'r rhanddeiliaid perthnasol eraill yn gweithredu'r cynllun yn llawn.

---

- **Tertiary Education and Research (Wales) Bill:** We know that the Government intends to introduce the Tertiary Education and Research (Wales) Bill and it is likely that the committee will have a key role in scrutinizing the Bill in due course.This provides an opportunity for the committee to consider the position of the Welsh language in further and higher education.
- **Welsh Medium Further Education and Apprenticeships Action Plan:** In January 2019 the Welsh Medium Further Education and Apprenticeship Planning Group introduced the above action plan. Although the Government has providedsome additional funding to the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, the action plan is far reaching and substantial. This additional funding does not amount to

implementing the scheme in its entirety. The committee has a role in ensuring that the Government and other relevant stakeholders fully implement the plan.

**Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)**

- Gwasanaethau iechyd meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg: Yn ei adroddiad terfynol ar Effaith Covid-191 ar blant a phobl ifanc nododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd ei fod wedi clywed 'pryderon cynyddol am effaith y sefyllfa barhaus o ran y pandemig ar les meddyliol pobl ifanc'. Roedd Cadernid Meddwl, adroddiad y Pwyllgor yn 2018 yn amlygu pryderon am ddiffyg gwasanaethau Cymraeg iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn argymell 'bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc yn gwneud darn penodol a chynhwysfawr o waith ar y gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael yn Gymraeg'. Yn ei hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor yn 2020 ar yr adroddiad ddwy flynedd yn ddiweddarach rhoddodd Comisiynydd Plant Cymru2 sgôr coch gyferbyn â'r argymhelliad hwn o 2018. Nododd y Comisiynydd 'Ni welais yr un arwydd bod gwaith sylweddol wedi'i wneud ar y mater hwn'; 'Mae angen cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r argaeledd presennol a'r argaeledd yn y dyfodol, a dylid rhoi cynlluniau ar waith i wella'r ddarpariaeth yn Gymraeg.'

Rydym felly yn parhau yn bryderus am y graddau y mae gwasanaethau iechyd meddwl ar gael i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn arbennig os bydd cynnydd mewn galw yn sgil pandemig Covid-19. Gofynnwn i'r Pwyllgor sicrhau fod gwasanaethau iechyd meddwl yn y Gymraeg yn parhau yn flaenoriaeth iddo.

---

- **Welsh-medium mental health services:** In its final report on the impact of Covid-19 on children and young people the Children, Young People and Education Committee noted that it had heard growing concerns about the impactof the ongoing pandemic on young people's mental wellbeing. The Committee's 'Mind over matter' report in 2018 highlighted concerns about the lack of Welsh language mental health services for children and young people and recommended that the Welsh Government ensured that the 'Together for Children and Young People Framework' undertook 'a focused and comprehensivepiece of work on the availability of Welsh language emotional and mental health services'. In her response to the Committee's 2020 consultation on the report twoyears later the Children's Commissioner for Wales gave a red rating against this recommendation from 2018. The Commissioner noted that she saw no indication that significant

work had been done on this issue and that there needs to be a comprehensive analysis of current and future availability, and that plans should be put in place to improve Welsh language provision.

We therefore remain concerned about the availability of mental health services for children and young people through the medium of Welsh, particularly if there is an increase in demand due to the Covid-19 pandemic. We ask the Committee to ensure that Welsh language mental health services remains a priority.

**Thema 4: Plant a phobl Ifanc | Theme 4: Children and young people**

- Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog: mae ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector cyn ysgol yn rhan allweddol o strategaeth iaith y Llywodraeth. Mae'r gwaith o agor cylchoedd meithrin newydd drwy gydweithio â'r Mudiad Meithrin yn allweddol yn ycyd-destun hwn. Er hyn, mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant ymhell tu ôl i'r ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael yn ysgolion cynradd Cymru. Yn 2019, 14% o leoedd gofal plant yng Nghymru oedd yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg, o'i gymharu â'r 23% o ddisgyblion oedran cynradd oedd yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhesymol tybio y byddai mwyafrif y rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant hefyd wedi dymuno gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg pe bai'n ymarferol bosibl. Mae'r data yn awgrymu felly nad yw'r sector gofal plant yng Nghymru yn debygol o fod yn diwallu'r galw sy'n bodoli am ofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw chwaith yn creu galw ychwanegol am addysg cyfrwng Cymraeg nac yn ysgogi'r twf mewn addysg Gymraeg a ragwelir yn Strategaeth Cymraeg 2050. Dylid pwysleisio bod cyfraddau trosglwyddo o gylchoedd meithrin i ddosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg yn hynod uchel, felly mae cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sector cyn-statudol yn ddull naturiol ac effeithiol o symbylu twf mewn addysg Gymraeg yn y sector statudol.

Credwn fod angen gwaith craffu pellach ar sefyllfa gofal plant yng Nghymru, a chynnig argymhellion ynghylch hyd a lled y math o bolisïau fydd eu hangen er mwyn gwyrdroi'r sefyllfa bresennol.

---

- **Welsh-medium and bilingual childcare provision:** expanding Welsh- medium and bilingual provision in the pre-school sector is a key part of the Government's language strategy. Working alongside the Mudiad Meithrin to open new childcare provision is crucial in this context. However, Welsh- medium provision inthe childcare sector lags far behind the Welsh-mediumprovision available in Welsh primary schools. In 2019, 14% of childcare places in Wales offered Welsh- medium provision, compared with the 23% of primary age pupils receiving education

through the medium of Welsh.

It is reasonable to assume that the majority of parents choosing Welsh- medium education for their children would also have wanted childcare through the medium of Welsh if it was practically possible. The data therefore suggests that the childcare sector in Wales is not meeting the demand that exists for Welsh-medium childcare. Nor does it create additional demand for Welsh-medium education or stimulate the growth in Welsh-medium education as envisaged in the Cymraeg 2050 strategy. It should be emphasised that transition rates from 'cylchoedd meithin' to Welsh-medium reception classes are extremely high, and therefore increasing Welsh-medium provision in the pre-statutory sector is a natural and effective method of stimulating growth in Welsh-medium education in the statutory sector.

We believe that further scrutiny is needed on the situation of childcare and early-years education in Wales, with the view to making recommendations on the types of policies that will be required to realise the Governments' ambition for the Welsh language.

[1] cr-ld14286-w.pdf (senedd.cymru)
[2] MOM 28 - Comisiynydd Plant Cymru.pdf (senedd.cymru)